**Adroddiad Grŵp Prosiect BGC**

Paratowyd gan: Teleri Elias

| | |
|---|---|
| **Nod y Cynllun Llesiant** | Nod pob prosiect peilot sy'n seiliedig ar leoedd yw mynd i'r afael â'r nodau llesiant fel yr amlinellir yng Nghynllun Llesiant Lleol Ceredigion. Bydd fframwaith cyflawni sy'n seiliedig ar leoedd yn blaenoriaethu integreiddio ac yn ymgorffori ymagwedd holistaidd drylwyr at gydnerthedd cymunedol ac unigol. |
| **Ein Gwerthoedd** | Y Gymraeg, Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau, Cynnwys, Cynaliadwyedd, Arwain trwy Esiampl |
| **Enw'r Grŵp Prosiect** | Aberystwyth Carbon Niwtral a'r Strategaeth Datgarboneiddio |
| **Cadeirydd** | **Gillian Perry**, Cyfoeth Naturiol Cymru |

| **Aelodaeth y Grŵp Prosiect** *(Yr enwau mewn **print trwm** oedd yn bresennol yn y cyfarfod)* | | | |
|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ceredigion | Cyng. Alun Williams, Lyndon Griffiths, **Bethan Lloyd Davies,** Rhodri Llwyd, **Dr Sarah Groves-Phillips,** Cyng. Keith Henson, Beti Gordon, **Alison Heal,** Bethan Howell, Nicola Davies, Llinos Williams, **Rachel Auckland** Partnerships Team: **Timothy Bray**, Sara Dafydd, **Lynne Walters, Anwen Thomas, Teleri Elias** | Prifysgol Aberystwyth | Rhodri Llwyd Morgan, Dewi Day |
| | | Cyfoeth Naturiol Cymru | Yvette Eley, Peter Frost |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Paul Williams, Terri Shaw, Owen Harris, **Sharon Hughes**, Rhian Rees | Llyfrgell Genedlaethol Cymru | Mark Stevens |
| Gwasanaethau Ynni Llywodraeth Cymru | Rhys Horan, Huw Lewis, Brian Drysdale, Tony Lawson | Cynllun Ynni Canolbarth Cymru | Thomas Yeo, Dr Gemma Delafield, |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru | Neil Evans | Coleg Sir Gar/Ceredigion | Vanessa Cashmore, Louis Dare |
| | | CMGC | **Chesca Ross** |
| EcoDyfi | Andy Rowland | Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru | Roxanne Treacy, **Vikki Butler** |
| Cyngor ar Bopeth | Juliet Morris | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | Kelly Williams, Daniel Priddy |
| Partneriaeth Natur Lleol | Rachel Auckland | Menter a Busnes | **Ann Owen** |

**CRYNODEB O GYFARFOD Y GRŴP PROSIECT**

**Pwyntiau Allweddol a drafodwyd yng nghyfarfod y Grŵp Prosiect: 22.01.24**

**12.1 Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau**

Croesawodd y Cadeirydd, Gillian Perry (GP), yr aelodau i'r cyfarfod a gwnaeth pawb gyflwyno eu hunain. Nodwyd yr ymddiheuriadau canlynol:
Eirlys Lloyd- Cyngor Sir Ceredigion
Rhodri Morgan- Cyngor Sir Ceredigion
Y Cynghorydd Alun Williams- Cyngor Sir Ceredigion
Roxanne Treacy – Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru
Dr Gemma Delafield

**12.2 Cofnodion a materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol**

Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 26.10.23 yn gywir a dywedwyd y byddai'r camau gweithredu yn cael sylw fel rhan o agenda'r cyfarfod hwn.

**Cam Gweithredu- Byddai Lynne Walters yn ailanfon y daenlen Excel a oedd yn cynnwys y blaenoriaethau fel y gallai'r aelodau fewnbynnu eu gwybodaeth.**

**12.3 Diweddariad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus: Cynllun Llesiant Lleol 2023-28 – Fframwaith Llywodraethu a Chyflawni ar gyfer Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion – gan gynnwys adborth oddi wrth y Bwrdd**

Rhoddodd Tim Bray (TB) ddiweddariad byr am waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r gweithdai a gynhaliwyd gyda'r partneriaid yn ddiweddar yn seiliedig ar yr amcanion. Roedd y gweithdai yn llwyddiannus a chasglwyd llawer o wybodaeth ddefnyddiol. Hefyd, roedd yr holl adborth wedi'i ystyried. Yn sgil hyn, roedd y Bwrdd wedi creu teclyn ar gyfer olrhain camau gweithredu a oedd yn cynnwys yr amcanion. Y nod oedd tynnu sylw at y gweithgareddau o dan bob amcan ym mhrif gyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r is-grwpiau a'u gwthio ymlaen. Byddai pob un yn derbyn copi o'r ddogfen hon unwaith y byddai wedi'i dangos ym mhrif gyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth. Yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Rhagfyr y llynedd, penderfynwyd cadw strwythur cyflawni'r grwpiau 'seiliedig ar leoedd' ar gyfer Llanbedr Pont Steffan, Aberteifi ac Aberystwyth. Byddai hyn yn cael ei adolygu ymhen blwyddyn. Cytunodd pawb y dylid ail-enwi grŵp Aberystwyth yn grŵp thematig a fyddai'n cynnwys Ceredigion gyfan. Cytunwyd mai'r enw newydd fyddai'r Grŵp Cyflawni Hinsawdd a Natur. Awgrymwyd yn y gweithdai y dylai cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus archwilio materion yn fanwl fel y gellid darparu ffocws ar bynciau penodol. Nodwyd bod y Bwrdd o'r farn bod budd i'w gael o weld Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru yn bresennol yng nghyfarfodydd y grwpiau 'seiliedig ar leoedd'. Roedd trafodaethau yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd ynglŷn â lansio'r cynllun llesiant a chytunwyd y byddai'n fuddiol ffurfio grŵp Gorchwyl a Gorffen i ddatblygu'r gwaith hwn. Hefyd, dywedodd TB wrth aelodau'r grŵp fod ganddyn nhw gyllid i ddatblygu 4 fideo, a fyddai'n para 90 eiliad yr un, yn seiliedig ar brofiadau bywyd. Gallai'r rhain gael eu cyfuno i greu un fideo hirach. Gofynnodd TB i'r aelodau roi gwybod iddo am unrhyw syniadau posibl.

**Cam Gweithredu- Mynd ati i newid enw'r grŵp hwn i'r Grŵp Cyflawni Hinsawdd a Natur.**

**Cam Gweithredu- Byddai'r aelodau'n ystyried pwy yr oeddent yn ei gredu fyddai'n briodol i gynorthwyo â'r grŵp Gorchwyl a Gorffen fel y gellid lansio Cynllun Llesiant 2023-28.**

**Cam Gweithredu- Byddai Timothy Bray yn rhannu cynllun cyflawni Cynllun Llesiant Lleol 2023-28 ag aelodau'r fforwm ar ôl iddo gael ei rannu â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei gyfarfod ym mis Mawrth.**

**Cam Gweithredu- Byddai Timothy Bray yn trefnu bod y cynllun cyflawni yn derbyn sgôr darllenadwyedd a byddai'n newid y lliwiau er mwyn sicrhau bod y ddogfen yn fwy clir i'r holl ddarllenwyr.**

Awgrymodd GP fod angen tua 5 o bobl o'r grŵp hwn i fod yn rhan o'r grŵp Gorchwyl a Gorffen i ddarparu syniadau ar gyfer lansiad y cynllun llesiant lleol a fyddai'n digwydd ymhen tua 2–3 mis. Cadarnhaodd GP, Vikki Butler (VB), Chesca Ross (CR), ac Ann Owen (AO) eu bod yn fodlon bod yn rhan o'r grŵp Gorchwyl a Gorffen. Nododd GP ei bod yn bwysig manteisio i'r eithaf ar yr arian a oedd ar gael ar gyfer y fideos. Awgrymodd LW efallai y gallai timau cyfathrebu'r Bwrdd Iechyd a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru gynorthwyo â hyn. Byddai GP yn cwrdd â TB ar ôl y cyfarfod i drafod strwythur y grŵp Gorchwyl a Gorffen.
**Cam Gweithredu – Byddai GP yn cwrdd â TB cyn i'r grŵp gorchwyl a gorffen ddechrau ar ei waith.**

**12.4 Ystyriaeth Gychwynnol i'r Cylch Gorchwyl Drafft ac aelodaeth y Grŵp.**

Cyfeiriwyd at y cylch gorchwyl cychwynnol y cytunwyd arno ar gyfer is-grwpiau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Nid oedd angen gwneud llawer o newidiadau i'r Cylch Gorchwyl drafft ond roedd y copi newydd yn rhoi sylw i'r blaenoriaethau a'r adborth a gafwyd o'r gweithdai. Prif amcan y grŵp hwn, fel y nodwyd yng Nghynllun Llesiant 2023-28, oedd amlinellu cynlluniau datgarboneiddio yng Ngheredigion er mwyn diogelu a gwella ein hadnoddau naturiol. Roedd y Cylch Gorchwyl yn amlinellu blaenoriaethau'r grŵp hwn. Byddai'r blaenoriaethau allweddol yn cael eu nodi yn y Cynllun Llywodraethu a Chyflawni.

**Cam Gweithredu- Byddai LW yn rhannu'r Cylch Gorchwyl drafft â'r aelodau fel y gallent ei ystyried.**

**Cam Gweithredu - Byddai pob aelod yn adolygu aelodaeth y grŵp hwn gan awgrymu unrhyw newidiadau a fyddai angen eu gwneud i ychwanegu at yr aelodaeth ac adlewyrchu pob elfen o'r blaenoriaethau a nodwyd.**

**12.5 Asesiad o'r Effaith ar Newid Hinsawdd**

Ar ran Llywodraeth Cymru ac fel rhan o Gynlluniau Llesiant y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn datblygu asesiad risg o ran newid hinsawdd, gan ystyried y camau lliniaru ac addasiadau y gellid eu rhoi ar waith i leihau'r risg o newid hinsawdd. Roeddent ar hyn o bryd yn datblygu canllawiau i gyd-fynd â'r asesiad risg a byddent yn cael eu cyflwyno gerbron pob un o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus maes o law fel y gallai'r aelodau eu hystyried.

**Cam Gweithredu – Byddai'r mater hwn yn eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf a byddai aelodau o staff Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael eu gwahodd i roi diweddariad ar yr Asesiad o'r Effaith ar Newid Hinsawdd.**

Dywedodd GP fod rhai Awdurdodau Lleol wedi cwblhau eu hasesiadau effaith ac y byddai Ceredigion yn gweithio ar hyn dros y 12-18 mis nesaf. Awgrymodd LW y dylid ystyried sefydlu grŵp Gorchwyl a Gorffen, pan fyddai hynny'n briodol, i gyflawni'r gwaith hwn. Byddai'r grŵp wedyn yn adrodd yn ôl i'r cyfarfod hwn ac yn y pen draw, trwy'r Cadeirydd, byddai'n adrodd yn ôl i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Er mwyn sicrhau ymagwedd holistaidd tuag at y dasg hon, awgrymodd GP y byddai'n briodol gofyn i'r grwpiau cyflawni eraill sy'n ymwneud â llesiant i gymryd rhan uniongyrchol yn y gwaith hwn gan y byddai hynny'n sicrhau dull gwirioneddol gydweithredol o weithio.

**Cam Gweithredu – Byddai GP yn rhoi diweddariad i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus am y mater hwn a byddai'n gofyn i'r grwpiau cyflawni eraill sy'n ymwneud â llesiant i gymryd rhan.**

**12.6 Prosiect Rhwydwaith Bwyd Ceredigion, y Cynllun Grantiau Bach a ffermio sy'n gyfeillgar i natur.**

**Ann Owen, Menter a Busnes**
Roedd £48,000 o'r cynllun grant yn cael ei ddyrannu i 14 prosiect gwahanol ac roedd rhai o'r rhain yn rhoi sylw i dlodi bwyd. Roedd y rhain yn cynnwys pum prosiect a oedd yn cynnal cyrsiau ynghylch coginio bwyd mewn crochan araf. Roedd rhai ysgolion lleol yn rhan o brosiectau tyfu gan gynnwys tyfu cynnyrch organig ac roeddent wedi adeiladu cegin arbennig y gallai grwpiau ymweld â hi ar y fferm. Roedd yna hefyd brosiect masnachol ar y gweill lle'r oedd pedair stondin marchnad barhaol yn cael eu gosod mewn siop dair gwaith yr wythnos, gyda'r bwriad o annog busnesau newydd i ddechrau yn Aberteifi. Dywedodd Ann Owen wrth y grŵp y byddai ei swydd yn dod i ben ym mis Mawrth a diolchodd y Cadeirydd yn ddiffuant iddi am ei chyfraniadau cadarnhaol i drafodaethau'r grŵp cyflawni hwn.

**Cam Gweithredu- Byddai Ann Owen yn darparu adroddiad ysgrifenedig ar ddiwedd y prosiect gan nodi manylion a lleoliadau'r holl brosiectau a chynlluniau.**

Cafwyd trafodaeth bellach ynglŷn â chyfarfod diweddar AO â Chastell Howell. Roedd AO wedi cyfarfod â chwmni Castell Howell i drafod ei broses gaffael ar gyfer cynnyrch lleol ac i ystyried sut y gallai hyn fod o fudd i gynhyrchwyr lleol wrth ystyried eu dulliau a'u prosesau cynhyrchu. Nododd AO fod Castell Howell yn amhrisiadwy wrth symud hyn ymlaen. Roedd y cwmni o blaid prosiectau cynhyrchu a dosbarthu bwyd mewn mannau eraill yng Nghymru ac yn gefnogol iawn iddynt. Nododd AO mai'r broblem gynhenid gyda phrosesau caffael cyhoeddus oedd y ffaith bod ganddynt reolau llym iawn o ran yr hyn a ganiateir a'r hyn nad oedd yn cael ei ganiatáu. Roedd angen archwilio safle pob darparwr ond roedd hyn yn costio arian. Serch hynny, pe byddai Castell Howell yn gyfryngwr, gallent hefyd weithredu fel cydgasglwr a rhannu gwybodaeth er budd ehangach eraill. Dywedodd AO wrth y grŵp ei bod wedi siarad â George Ryley a'i bod wedi cael gwybod bod y polisi caffael lleol yn newid. Roedd AO wedi gobeithio cael diweddariad ond roedd Mr Ryley erbyn hyn wedi ymddeol o'i swydd. Nododd LW y gellid mynd ar drywydd hyn.

**Cam Gweithredu- Byddai LW yn siarad â'i chydweithwyr ym maes caffael a byddai'n gofyn am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r polisi a oedd yn newid o ran caffael cyhoeddus a goblygiadau hyn ar bolisïau cynhyrchwyr a'u safleoedd.**

**12.7 Y diweddaraf am y Siarter Teithio Iach – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**
Roedd penderfyniad wedi'i wneud i gynnwys y Siarter Teithio fel rhan o waith y grŵp. Roedd LW yn mynd i gyfarfodydd y siarter teithio yn rhinwedd ei swydd fel Swyddog Cymorth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ond roedd dal angen trafodaeth i ddewis aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a fyddai mewn sefyllfa i wneud penderfyniadau ar ran y Bwrdd, i gymryd rhan uniongyrchol yn y gwaith hwn. Byddai hyn yn bwysig wrth i benderfyniadau gael eu gwneud ar ymrwymiadau yng nghyswllt y Siarter Teithio.

**Cam Gweithredu- Byddai'r aelodau yn ystyried a oeddent am fynd i gyfarfodydd Grŵp y Siarter Teithio a chynrychioli'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fel rhanddeiliad.**

**<u>12.8 Eitem Sefydlog : Diweddariad ar y Cynllun Ynni Ardal Leol a throsolwg o'r Strategaeth Ynni Rhanbarthol a'r Cynllun Gweithredu.</u>**
Rhoddodd Bethan Lloyd Davies (BLD) ddiweddariad ar y Cynllun Ynni Ardal Leol. Ers y cyfarfod diwethaf ym mis Hydref, roeddent wedi cynnal dau weithdy pellach a byddai gweithdy arall yn cael ei gynnal ddiwedd Ionawr '24. Byddai'r gweithdai hyn yn allweddol o ran y Cynllun Ynni Ardal Leol. Y gobaith oedd y byddai fersiwn ddrafft yn barod erbyn diwedd Ionawr ac unwaith y byddai yn ei ffurf derfynol, byddai copi yn cael ei rannu â'r grŵp hwn. Hefyd, roeddent yn trefnu sesiwn briffio rhanbarthol ym mis Chwefror gyda swyddogion ac aelodau'r ddau awdurdod lleol. Yn dilyn hyn, byddai'n mynd gerbron y Cabinet ym mis Mai. Wrth ddod â'r diweddariad i ben, dywedodd BLD wrth yr aelodau fod gweithdy ar ddatgarboneiddio yn cael ei drefnu ar gyfer busnesau ar Fferm Bargoed ar 9 Chwefror. Roedd manylion yr holl ddigwyddiadau yn cael eu rhannu ar y tudalennau Facebook a Twitter a gofynnwyd i'r aelodau rannu'r manylion â'u cydweithwyr a'u rhwydweithiau.

**Cam Gweithredu – Byddai Bethan Lloyd Davies yn rhannu'r manylion am y gweithdy datgarboneiddio i fusnesau a fyddai'n cael ei gynnal ar Fferm Bargoed.**

Dywedodd LW fod Fferm Bargoed wedi'i henwebu am wobr yng ngwobrau'r Gynghrair Cefn Gwlad ar gyfer 2023-2024 a'i bod wedi cyrraedd y rownd derfynol.

**<u>12.9 Diweddariadau gan y Partneriaid  – Pawb</u>**
Dywedodd BLD wrth y grŵp bod Cyngor Sir Ceredigion wedi penodi rheolwr prosiect a rhaglen yn ddiweddar ar gyfer y Seilwaith Mannau Gwefru ar gyfer Cerbydau Trydan. Roedd hefyd wedi allanoli'r fframwaith *re-fit* a'r fframwaith *electro-ffit* sy'n effeithlon o ran ynni ac ar hyn o bryd roeddent yn chwilio am bartner a fyddai'n caniatáu iddynt ganolbwyntio'n llawn ar eu stoc adeiladu.

**Cam Gweithredu- Byddai'r fframwaith *re-fit* a'r fframwaith *electro-ffit* sy'n effeithlon o ran ynni yn cael eu cynnwys fel pwnc trafod yn un o gyfarfodydd y dyfodol a byddai hyn hefyd yn cynnwys diweddariad ar gerbydau trydan a mannau gwefru ar draws Canolbarth Cymru.**

Rhoddodd CR (CAVO) wybod i'r grŵp am ddau brosiect yr oedd Hafren Gwy yn eu rhoi ar waith o ran effeithlonrwydd ynni. Roedd un o'r prosiectau hyn yn gweithio'n benodol gyda chyfleusterau cymunedol. Roedd pum cyfleuster wedi'u nodi a byddai gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni yn cael eu gwneud i'r rhain gyda chymorth grantiau. Enw'r prosiect arall oedd 'Cymunedau Cefnogol' ac roedd y prosiect hwn yn canolbwyntio ar gydnerthedd cymunedol gan nodi grwpiau yr oedd pobl yn troi atynt i gael cyngor a chymorth, yn benodol o ran y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol.

Rhoddodd Sarah Groves Phillips (SGP) ddiweddariad a nododd fod y Prosiect Lleihau a Lliniaru Ffosffadau a oedd yn canolbwyntio ar faethynnau wedi dod i ben ddiwedd mis Rhagfyr. Roedd tri phrosiect wedi cyrraedd y cam dylunio fel rhan o'u ceisiadau cynllunio ac roedd hyn yn cynnwys dau wlyptir ac un coetir gwlyb. Ym mis Rhagfyr, roedd Afon Teifi wedi'i dewis fel dalgylch arddangos yn strategaeth rheoli maethynnau (ffosffadau) y Prif Weinidog. Partneriaeth amlasiantaeth oedd hon a byddai'r prosiect yn para 5-6 blynedd. Y gobaith oedd cynnal cynhadledd dau ddiwrnod ym mis Chwefror i drafod y cyfleoedd yr oedd y prosiect yn eu cynnig.

Dywedodd VB (Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru) ei bod hi hefyd yn eistedd ar is-grŵp Amgylchedd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro a bod y Bwrdd hwnnw yn cynnal digwyddiadau dysgu o fewn y rhwydwaith cyd-gynhyrchu. Byddai VB yn dosbarthu rhagor o fanylion â'r aelodau maes o law.

Rhoddodd LW ddiweddariad ar ran Rhian Rees ynglŷn â'r Siarter Teithio. Roedd y grŵp yn parhau â'i waith o lunio ymrwymiadau cenedlaethol a lleol. Roedd y gwaith hwn hefyd yn cynnwys cytuno ar addewidion allweddol. Roedd prosiect diweddar gyda Chymdeithas Mudiadau Trafnidiaeth Gymunedol Sir Benfro (PACTO) wedi llwyddo i sicrhau cyllid ychwanegol oddi wrth y Loteri Cenedlaethol a byddai hyn yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu'r fenter 'Ewch â Mi Hefyd '. Roedd y cam cychwynnol wedi annog unigolion i rannu ceir er mwyn mynd i apwyntiadau neu ymweld â threfi marchnad, ysbytai ac ati ac roedd y cynllun yn awr yn symud tuag at dargedu gweithwyr fyddai angen teithio i'r gwaith, digwyddiadau a chynadleddau. Yn y dyfodol, byddai modd hefyd ystyried arolygon teithio ac yn benodol un a oedd wedi'i gynnal ym Mhowys yn ddiweddar.

Rhoddodd Alison Heal (AH) wybodaeth am y rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yr oedd Cyngor Sir Ceredigion yn ei chynnal. Pe byddai rhywun yn dymuno bod ar restr bostio Partneriaeth Natur Lleol Ceredigion, roedd croeso iddynt gysylltu â biodiversity@ceredigion.gov.uk.

**12.10 Eitem Sefydlog: A oes angen i ni gysylltu â Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru ynglŷn ag unrhyw un o'r materion a godwyd?**
Gan y byddai VB o Rwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru yn bresennol ym mhob un o gyfarfodydd y dyfodol, ni fyddai angen yr eitem hon ar agendâu cyfarfodydd y dyfodol.

**12.11 Unrhyw Fater Arall:**
Awgrymodd GP fod angen ystyried cyfleoedd i gwrdd wyneb yn wyneb yn y dyfodol. Byddai gwneud hyn yn cynnig mwy o gyfle i gael trafodaeth o amgylch y bwrdd ynglŷn â phynciau yr oedd angen eu rhoi gerbron y grŵp i'w hystyried . Byddai hyn hefyd yn arwain at ymagwedd mwy cydweithredol yn y cyfarfodydd a fyddai'n seiliedig ar y trafodaethau ynghylch camau gweithredu'r dyfodol.

- **Camau Cynaliadwy Cymru: Gyrfaoedd Gwyrdd – Cronfa Gymunedol y Loteri.**

| |
|---|
| Rhaglen newydd a oedd yn cael ei hariannu gan y Loteri oedd hon ac roedd cyfleoedd felly i gyflwyno ceisiadau newydd. Roedd rhagor o fanylion am y meini prawf cymhwysedd ar gael drwy fynd at: [Camau Cynaliadwy Cymru: Gyrfaoedd Gwyrdd \| Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol (tnlcommunityfund.org.uk)]<br><br>**Cam Gweithredu – Byddai LW yn rhannu gwybodaeth am raglen Camau Cynaliadwy Cymru: Gyrfaoedd Gwyrdd, Cronfa Gymunedol y Loteri, â phob un o'r partneriaid.**<br><br>- **Eitemau i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eu hystyried yn y cyfarfod nesaf ar 4 Mawrth 2024.**<br>Awgrymodd TB y dylai'r grŵp ysgrifennu at y Cadeirydd i amlinellu pa mor werthfawr fu cefnogaeth a mewnbwn Ann Owen, Menter a Busnes, yn ystod ei chyfnod fel swyddog arweiniol prosiect Rhwydwaith Bwyd Ceredigion.<br><br>**<u>12.12 Dyddiadau'r Cyfarfodydd Nesaf:</u>**<br>15/4/24, 8/7/24 a 14/10/24 |
| **Crynodeb o'r camau gweithredu** |
| **Byddai Lynne Walters yn ailanfon y daenlen Excel a oedd yn cynnwys y blaenoriaethau fel y gallai'r aelodau fewnbynnu a diweddaru eu gwybodaeth.** |
| **Newid enw'r grŵp cyflawni hwn i grŵp cyflawni Hinsawdd a Natur y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a diwygio'r Cylch Gorchwyl.** |
| **Byddai'r aelodau'n ystyried enwebiadau ar gyfer Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddatblygu lansiad swyddogol Cynllun Llesiant Lleol 2023-28.** |
| **Byddai Timothy Bray yn rhannu'r Cynllun Cyflawni Llesiant Lleol ag aelodau'r fforwm ar ôl iddo gael ei rannu â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.** |
| **Byddai Timothy Bray yn trefnu bod y cynllun cyflawni yn derbyn sgôr darllenadwyedd a byddai'n newid y lliwiau er mwyn sicrhau bod y ddogfen yn fwy clir i'r holl ddarllenwyr** |
| **Byddai'r Cylch Gorchwyl drafft yn cael ei rannu â'r aelodau fel y gallent ei ystyried a'i gymeradwyo.** |
| **Byddai pob aelod yn adolygu aelodaeth y grŵp cyflawni hwn.** |
| **Byddai diweddariad gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar yr Asesiad o'r Effaith ar Newid Hinsawdd yn cael ei gynnwys fel eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf.** |
| **Byddai Ann Owen yn darparu adroddiad ysgrifenedig gan nodi hanes yr holl brosiectau ar ddiwedd y cam hwn o'r prosiect i sefydlu Rhwydwaith Bwyd Ceredigion.** |

| |
|---|
| **Byddai Lynne Walters yn cysylltu â'i chydweithwyr ym maes caffael a byddai'n gofyn am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r newidiadau polisi o ran gweithdrefnau caffael cyhoeddus ac effaith benodol hyn ar asesiadau safleoedd.** |
| **Byddai'r aelodau yn ystyried enwebiadau ar gyfer mynd i Grŵp y Siarter Teithio a chynrychioli'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.** |
| **Byddai Bethan Lloyd Davies yn rhannu manylion am y gweithdy datgarboneiddio ar gyfer busnesau a fyddai'n cael ei gynnal ar Fferm Bargoed ar 9 Chwefror.** |
| **Byddai cerbydau trydan a mannau gwefru ar draws Canolbarth Cymru yn cael eu trafod yn un o gyfarfodydd y dyfodol.** |
| **Byddai gwybodaeth am raglen Camau Cynaliadwy Cymru: Gyrfaoedd Gwyrdd, Cronfa Gymunedol y Loteri yn cael ei dosbarthu ymhlith y partneriaid.** |